



Y Coleg Cymunedol Cenedlaethol
The National Community College

Diogelu mewn Amgylchedd Ar-lein:
Canllawiau i Diwtoriaid

Hydref 2020



1.0 Cyflwyniad

Rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu diogel, ac rydym ni'n cydnabod ein cyfrifoldeb i ddiogelu llesiant dysgwyr sydd wedi cofrestru i gyfranogi yn ein cyrsiau neu ein gweithgareddau, wyneb yn wyneb mewn dosbarth neu ar-lein.

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio'n benodol ar ddiogelu mewn amgylchedd dysgu ar-lein, ac mae'n darparu gwybodaeth i diwtoriaid ynghylch sut gellir cyflawni dysgu ar-lein yn ddiogel.

Mae gan bawb gyfraniad i'w wneud at ddiogelu. Dylid rhoi sylw priodol i'r ystyriaethau a ddisgrifir yn y canllawiau hyn i sicrhau fod dysgwyr a thiwtoriaid yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu'n briodol.

2.0 Polisi diogelu

Mae'r canllawiau hyn yn ategu [Polisi Diogelu a Prevent](#) AOC | ALW a nid ydynt yn disodli'r cyfrifoldebau, yr egwyddorion a'r disgwyliadau sydd wedi'u cynnwys ynddo.

Pa un ai a fydd dysgwyr gartref neu yn yr ystafell dosbarth, mae diogelu dysgwyr a sicrhau eu lles yn allweddol, ac mae'n flaenoriaeth bwysicach nag unrhyw flaenoriaeth arall.

Dylech chi bob amser barhau i gadw at Bolisi Diogelu a Prevent AOC | ALW. Dylid ymdrin ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelu ar-lein yn yr un modd ag yr ymdrinnir â diogelu yng nghyd-destun dysgu addysgu neu ryngweithio wyneb yn wyneb.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch dysgwr o safbwynt diogelu, dylech chi sicrhau eich bod chi'n hysbysu rhywun am eich pryderon yn syth (trowch at Atodiad A i weld manylion y cysylltiadau mewn perthynas â Diogelu).

Os byddwch chi'n credu fod dysgwr mewn perygl dybryd, dylech chi ffonio'n heddlu ar 999.

3.0 Arferion diogel wrth addysgu dosbarth ar-lein

3.1 Paratoadau

- Sicrhewch y caiff y wers ei chynllunio ymlaen llaw ac y rhoddir digon o rybudd i'r dysgwyr.
- Cadwch gofrestr o ddysgwyr sy'n mynychu pob gwrs.
- Sicrhewch fod gan yr holl ddysgwyr fynegiad at y meddalwedd gofynnol (mae cymorth cyn i gyrsiau gychwyn ar gael i ddygwyr; trafodwch hyn â'ch tîm rhanbarthol yn y lle cyntaf).
- Sicrhewch fod yr holl gynnwys yn briodol, ac yn achos unrhyw dasgau sy'n golygu fod angen ymchwil ar-lein, sicrhewch fod y gwefannau yn addas cyn y wers.
- Cofiwch y gall rhai dysgwyr orfod cael mwy o amser nag eraill i gwblhau tasgau penodol ar-lein.
- Sicrhewch eich bod chi'n gyfarwydd â swyddogaethau Microsoft Teams a sut i ddefnyddio'r plattform yn effeithiol (mae canllawiau ar gael [yma](#)).

3.2 Lleoliad a gosodiadau camera a sain

Mae'n hanfodol ystyried y lleoliad a gosodiadau sain a chamera yn ofalus i gynnal amgylchedd dysgu proffesiynol

bob amser. Bydd hyn yn neilltuo o bwysig pan fydd tiwtoriaid neu ddysgwyr gartref.

Ystyriwch y canlynol:

3.2.1 Lleoliad

Os byddwch chi'n cyflwyno gwres gartref neu mewn man ac eithrio dosbarth, neu bydd dysgwr yn ymuno â gwres yn y cartref neu mewn man ac eithrio dosbarth, dylech chi:

- Ddewis lleoliad niwtral sy'n briodol ac yn ddiogel, e.e. ystafell fyw, stydi neu gegin.
- Anogwch y dysgwyr i weithio mewn lleoliad priodol yn eu cartref ble maent yn teimlo'n gyfforddus.
- Os yn bosibl, lleihewch y posibilrwydd y caiff y wers ei tharfu gan aelodau eraill y cartref neu anifeiliaid anwes.

3.2.2 Gosodiadau'r camera

- Ystyriwch yn ofalus beth all y camera ei ddangos, h.y. sicrhewch fod y cefndir yn broffesiynol ac nad yw'n cynnwys lluniau anaddas neu wybodaeth na ddylid ei rhannu neu y gellid ei hystyried yn amhriodol.
- Os yn bosibl, dylai tiwtoriaid a dysgwyr ddefnyddio cefndir cymeradwy'r sefydliad fel arfer safonol (trowch at Atodiad B). Gallai uwchlwytho'r cefndir fod yn weithgaredd cyfranogol mewn gwres, a gellir cynorthwyo dysgwyr i wneud hyn os bydd hynny'n ofynnol.
- Yn achos rhai o'n cyrsiau megis Gwaith Ieuencid, Cymuned a Chwarae, a chysiau Dysgu yn y Gweithle, mae'n ofynnol i'r camerâu fod ymlaen trwy'r amser. O safbwynt addysgu a dysgu, bydd gofyn i'r holl ddysgwyr roi eu camerâu ymlaen yn eich galluogi chi i sylwi unrhyw giwiau dieirau a gweledol. Fodd bynnag, cofiwch y bydd gan rai dysgwyr resymau dilys dros beidio dymuno bod â'u camerâu ymlaen. Dan yr amgylchiadau hyn, rydym ni'n argymhell y dylech chi ddefnyddio eich barn broffesiynol a cheisio cymorth gan eich tîm rhanbarthol i gytuno ar y ffordd ymlaen.

3.2.3 Sain

Argymhellir defnyddio clustffonau â microffon (tebyg i'r rhai sydd ar gael gyda llawer o ffonau symudol) i sicrhau fod y sain yn eglur.

4.0 Ymddygiad proffesiynol

Dylech chi barhau i weithio yn yr un modd proffesiynol, yn union fel y byddwch chi'n ei wneud yn y dosbarth, a dylech chi wneud y canlynol:

- Cadw at safonau proffesiynol o ran gwisg pan fyddwch chi o flaen y camera.
- Mewn amgylchedd ar-lein, cofiwch y caiff sylwadau eu clywed gan nifer o ddysgwyr, a gellid eu camddehongli'n rhwydd.
- Cofiwch ddirwyn y sesiwn i ben ar gyfer yr holl gyfranogwyr, gan sicrhau na fydd dysgwyr ar eu pen eu hunain a heb eu goruchwyllo mewn gwres/sesiwn y byddwch chi wedi'i gadael.
- Cofiwch am yr angen i gynnal cyfrinachedd, yn enwedig os byddwch chi'n cynnal gwres mewn lleoliad lle bydd pobl eraill yn bresennol.

5.0 Ymddygiad dysgwyr

Mae disgwyliadau'r sefydliad o ran ymddygiad dysgwyr yr un fath, pa un ai a gynhelir dosbarthiadau ar-lein neu wyneb yn wyneb yn y dosbarth. Eglurir y disgwyliadau hyn yn eglur yn y 'Cytundeb Dysgu a'r Cod Ymddygiad Dysgwyr.

<file:///T:\Learner%20Services\Policies\Learning%20Agreement%20and%20Learner%20Code%20of%20Conduct.doc>

Os bydd unrhyw broblemau cyson yn ymwneud ag ymddygiad, dylech eu trafod â'ch Rheolwr Rhanbarthol, ac ymdrinnir â hwy trwy gyfrwng gweithdrefn y Sefydliad ynghylch [Ymddygiad Annerbyniol gan Ddysgwyr](#).

6.0 Canllawiau ynghylch Diogelu, Prevent a Diogelwch Ar-lein ar gyfer Dysgwyr

Tra byddwn ni'n hunan-ynysu ac yn cadw pellter cymdeithasol oherwydd Coronafeirws, mae platfformau cyfryngau cymdeithasol, megis Twitter, Snapchat a galwadau fideo, yn ffordd wych o gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, rhannu eich safbwyntiau a'ch syniadau a chysylltu â phobl o'r un anian. Fodd bynnag, wrth i ni ddibynnu rhagor ar gyfathrebu digidol, mae angen i ni ystyried y risgiau cysylltiedig, a bod yn ymwybodol o sut gallwn ni oll gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae canllawiau ynghylch diogelu, Prevent a diogelwch ar-lein wedi cael eu datblygu ar gyfer ein dysgwyr ac maent ar gael ar ein gwefan [yma](#).

Atodiad A

Cysylltiadau Allweddol ynghylch Diogelu

Enw	Rôl	Rhif Cyswllt	Cyfeiriad E-bost
Cath Hicks	Arweinydd Diogelu Dynodedig / Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau	07931 204613	cath.hicks@adultlearning.wales
Rachel Burton	Rheolwr/Swyddog Diogelu Gwaith Ieuenctid, Cymuned a Chwarae	07960 858835	rachel.burton@adultlearning.wales
Jayne Ireland	Rheolwr/Swyddog Diogelu Rhanbarth De Ddwyrain Cymru	07787 423632	jayne.ireland@adultlearning.wales
Sarah O'Connell Jones	Rheolwr/ Swyddog Diogelu Rhanbarth Gogledd Cymru	07930 867920	Sarah.O'ConnellJones@adultlearning.wales
Beth John	Rheolwr Rhanbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru	07432 881123	beth.john@adultlearning.wales
Martyn Reed	Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr	07715 904304	martyn.reed@adultlearning.wales
Mary Morris	Rheolwr Adnoddau Dynol	07930 688202	mary.morris@adultlearning.wales

Mewn argyfwng (bygythiad neu berygl dybryd i fywyd), dylech chi ffonio 999 bob amser.



Atodiad B

Cefndir sefydliadol cymeradwy AOC|ALW i'w ddefnyddio yn ystod cyfarfodydd MS Teams

Os yn bosibl, dylai tiwtoriaid a dysgwyr ddefnyddio [cefnidir cymeradwy'r sefydliad](#) fel arfer safonol wrth gyfranogi mewn gwrs trwy gyfrwng Microsoft Teams. Gallai uwchlwytho'r cefndir fod yn weithgaredd cyfranogol mewn gwrs, a gellir cynorthwyo dysgwyr i wneud hyn os bydd hynny'n ofynnol.

I osod y cefndir, bydd angen i chi ei ychwanegu at eich llyfrgell cefndiroedd yn Teams yn ystod cyfarfod, trwy bwysu 'Add new' yn y gosodiadau cefndir, fel y gwelir isod. Ar ôl uwchlwytho'r cefndir, bydd yn cael ei gadw yn eich llyfrgell cefndiroedd - ni fydd angen ei uwchlwytho bob tro. Ar ôl ei uwchlwytho'r cefndir, bydd i'w weld ar waelod y llyfrgell (o dan y cefndiroedd sydd wedi'u gosod ymlaen llaw) . Yna, os byddwch chi'n dymuno defnyddio'r cefndir hwn, bydd angen i chi ei ddewis fel eich cefndir dewisol. Daliwch sylw - byddwch chi'n gweld 'llun drych' o'r ddelwedd cefndir ar ôl i chi ei ddewis, ond ni fydd yn ymddangos fel 'delwedd drych' i gyfranogwyr eraill y cyfarfod.

